**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

# Adroddiad - yr achos busnes dros un corff amgylcheddol

Mai 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o’r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8544
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Adroddiad - yr achos busnes dros un corff amgylcheddol

Mai 2012

**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy’n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Rebecca Evans**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Vaughan Gething**
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**William Powell**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan



**Antoinette Sandbach**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Adroddiad – yr achos busnes dros un corff amgylcheddol

# Cynnwys


**Rhagair gan y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**1. Cyflwyniad** ..... 7

**2. Dibenion ac amcanion y corff newydd** ..... 8

**3. Comisiwn Coedwigaeth Cymru** ..... 9

**4. Buddion** ..... 11

**5. Peryglon** ..... 12

Peryglon TG ..... 12

Adnoddau dynol a phensiynau ..... 12

Perthnasau presennol ..... 12

Tryloywder a datrys anghydfodau ..... 13

Materion trawsffiniol ..... 13

**6. Dilyniant busnes** ..... 15

**7. Perthnasau a phartneriaethau â rhanddeiliaid** ..... 16

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ..... 16

Perthnasau lleol ..... 16

**8. Llywodraethu a strwythur** ..... 17

Arweinyddiaeth ac amserlen ..... 17

Diwylliant ..... 17

Lleoliad ..... 18

**9. Casgliadau** ..... 19

## Rhagair gan y Cadeirydd

Rwy'n falch o nodi casgliadau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ôl iddo ystyried yr achos busnes dros un corff amgylcheddol.

Rydym wedi gwneud y gwaith hwn mewn cyd-destun polisi sy'n esblygu'n barhaus, gydag ymgynghoriadau *Cynnal Cymru Fyw* ac *Adnoddau Naturiol Cymru* wedi'u lansio yn ystod ein hymchwiliadau. Bydd y datblygiadau hyn yn cael effaith ar ein gwaith, a dyna pam rydym wedi penderfynu cyhoeddi adroddiad byr i drafod ein casgliadau penodol mewn perthynas â'r achos busnes. Rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith mewn perthynas â'r cyd-destun polisi ehangach, ond mae'n debyg na fyddwn yn gwneud y gwaith hwn hyd nes yn hwyrach yn y flwyddyn, er mwyn galluogi'r cyd-destun polisi i ddatblygu ymhellach ac er mwyn i safbwynt mwy sefydlog ymddangos.

Y pwnc mwyaf dadleuol a godwyd oedd cynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn un corff, yn hytrach nag uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn unig. Ni chafodd ein pryderon bod peryglon yn parhau i fodoli yn y maes hwn eu lleddfu yn ystod ein hymchwiliad. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gynnig sicrwydd ei bod yn gwerthfawrogi'r perygl ychwanegol y mae cynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru mewn corff newydd yn ei gynrychioli ac yn nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i liniaru'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwneud hynny.

Cyn crynhoi ein hargymellion, hoffwn nodi pwynt o egwyddor gyffredin. Mae'r un corff amgylcheddol yn cael ei greu i weithredu polisi Llywodraeth Cymru ar lefel uchel, sydd i'w nodi yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar y polisi hwn ar hyn o bryd ac nid yw wedi'i gwblhau eto. Roeddem wedi'n synnu braidd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y dull gweithredu y mae'n dymuno ei ddefnyddio i gyflawni polisi (yn yr achos hwn, yr un corff amgylcheddol) cyn i'r polisi hwnnw gael ei gwblhau. Yn ein tyb ni, mae'r sefyllfa hon yn enghraifft o 'roi'r drol o flaen y ceffyl'. Hoffem gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Papur Gwyrdd a strwythur y corff newydd yn cael ei gydgysylltu'n agos yn hytrach nag yn cael ei wneud mewn modd ynysig.

## Argymhellion

Gan droi at ein hargymhellion, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau:

1. Nad yw'r gallu masnachol sy'n bodoli yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei golli a'i fod yn cael ei brif-ffrydio yng ngwaith y corff newydd. Dylid adeiladu ar yr arbenigedd hwn i wella'r ffocws masnachol ym mhob maes addas arall o waith y corff newydd. (Tudalen 10)

2. Nad yw perfformiad y tri chorff presennol yn gwanhau ac nad yw safon eu gwasanaeth yn dirywio yn ystod y cyfnod trawsnewid. (Tudalen 13)

3. Bod trefniadau cadarn yn eu lle i wahanu swyddogaethau caniatâu a chynghori yr un corf. (Tudalen 15)

4. Bod y llwybr tuag at greu diwylliant sefydliadol newydd a chydlynol yn sgil uno'r tri sefydliad sydd â diwylliannau gwahanol yn cael ei nodi'n glir a bod y canlyniadau ymarferol i randdeiliaid yn dilyn y newid sefydliadol sylweddol hwn yn cael eu datgan yn glir. (Tudalen 18)

Ein bwriad yw monitro cynnydd yn y meysydd hyn drwy gydol cyfnodau trawsnewid, sefydlu a chyflawni rhaglen yr un corff amgylcheddol a byddwn yn chwilio am gynnydd amlwg tuag at leihau'r peryglon a chyflawni'r argymhellion rydym wedi'u nodi yn yr adroddiad.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cynnal ymchwiliad byr i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol. Gwnaethpwyd y gwaith hwn gan y Pwyllgor yn ystod pedwar cyfarfod ym mis Ionawr a mis Chwefror 2012. Yn ogystal â chlywed tystiolaeth ar lafar, anfonodd y Pwyllgor holiadur at randdeiliaid i gael ystod ehangach o sylwadau.

Gellir gweld y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor ar ein gwefan: 'Ymchwiliad i'r Achos Busnes dros Un Corff Amgylcheddol'[1]. Mae'r casgliadau isod yn seiliedig ar y dystiolaeth honno.

[1] Gwefan: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2629

## 2. Dibenion ac amcanion y corff newydd

Roedd consensws cyffredinol yn y dystiolaeth a gawsom y dylai datblygu cynaliadwy fod yn brif amcan i unrhyw gorff newydd. Nid oedd cytundeb llwyr rhwng y sector masnachol a rhai grwpiau gwarchod natur o ran cydbwyso blaenoriaethau'r corff newydd; hynny yw, a ddylai ffocws ar warchod natur neu ganlyniadau economaidd a chymdeithasol gael ei flaenoriaethu.

Rydym yn cefnogi'r farn mai datblygu cynaliadwy dylai fod yn brif amcan i'r corff newydd ac y dylai hyn fod yn greiddiol i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ganddo. Golyga hyn y dylai ystyriaeth gyfartal gael ei rhoi i ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fel na all un o swyddogaethau'r corff gael eu cyflawni mewn ffordd a fyddai'n niweidiol i swyddogaeth arall.

Rydym yn cytuno â'r dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor nad yw'r amcan hwn o reidrwydd yn amlwg yn yr Achos Busnes, ac anogwn Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y prif amcan hwn wedi'i nodi'n glir ymhlith swyddogaethau'r corff newydd a gwaith y bwrdd cysgodol.

Mae *Cynnal Cymru Fyw* yn cyflwyno'r safbwynt mai'r hyn sydd orau mewn perthynas ag adnoddau naturiol sydd hefyd yn debygol o fod y dull economaidd mwyaf effeithiol. Er y bydd hyn o bosibl yn fodd o ddechrau cyfleu'r neges hon, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod angen gwneud mwy er mwyn argyhoeddi rhanddeiliaid am y safbwynt hwn.

## 3. Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Y mater mwyaf dadleuol a godwyd oedd cynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) mewn un corff, a'r pryderon sy'n bodoli, yn enwedig o fewn y sector coedwigaeth fasnachol breifat, ynghylch y posibilrwydd o golli ffocws masnachol y CCC o fewn un corff amgylcheddol.

Clywsom fod gan y sector coedwigaeth fasnachol yng Nghymru hyder yn yr arbenigedd a ffocws masnachol sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan y CCC. Er mwyn cynnal yr hyder hwn, mae'n hanfodol bod y sector hwn yn cael sicrwydd y bydd corff newydd yn parhau i gynnal yr un ffocws masnachol neu ffocws gwell.

Er mwyn darparu'r sicrwydd hwn, credwn y dylai manylion am y camau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau hyn gael eu hamlinellu cyn gynted â phosibl ac y dylai hyn fod yn un o dasgau cyntaf y corff cysgodi, unwaith iddo gael ei sefydlu.

Croesawn y cynigion yn *Adnoddau Naturiol Cymru* i roi dyletswyddau, targedau a chyfarwyddiadau clir i'r corff newydd o ran rheoli'r ystâd goedwig, ac anogwn Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad agos â rhanddeiliaid allweddol o'r sector.

Hoffem gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn monitro gweithrediadau'r corff newydd mewn perthynas â choedwigaeth yn agos i sicrhau bod ffocws ac arbenigedd masnachol CCC yn cael eu cynnal gan gorff newydd.

Mae ansicrwydd yn y maes hwn yn cynrychioli risg i fusnesau a buddsoddiad posibl, a allai fod yn niweidiol i economi Cymru. Rydym felly'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector hwn yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar fwrdd y corff newydd a bod pob ymdrech yn cael ei wneud gan y corff hwn i gynnwys y sector coedwigaeth fasnachol yng Nghymru ac i wrando arno.

**Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw'r gallu masnachol sy'n bodoli o fewn Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei golli, a'i fod yn cael ei brif-ffrydio yng ngwaith y corff newydd. Dylid adeiladu ar yr arbenigedd masnachol hwn er mwyn gwella'r ffocws masnachol ym mhob agwedd arall ar fusnes y corff newydd.**

## 4. Buddion

Roeddem yn falch o glywed o’r dystiolaeth a gawsom gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y bydd rheolwr newid buddion yn cael ei benodi am gyfnod o ddwy flynedd i sicrhau bod buddion yn cael eu dilyn a’u gwireddu. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, anogwn Lywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiadau cynnydd ar gyflawni’r buddion a amlinellir yn yr achos busnes.

Rydym yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn a hyderwn y bydd manylion o ran cynnydd tuag at wireddu’r buddion hyn yn cael eu rhannu gyda ni i gynorthwyo ein gwaith craffu parhaus ar y maes polisi pwysig hwn.

## 5. Peryglon

### *Peryglon TG*

Yr asesiad o beryglon TG yn yr achos busnes oedd un o'r prif bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid a'r sefydliadau amgylcheddol presennol.

Mae'n hanfodol bod y peryglon posibl o gyfannu systemau TG yn cael y sylw priodol a bod gwersi o sefydliadau eraill sydd wedi dilyn rhaglenni uno o'r fath yn cael eu hystyried. Credwn y dylai esiampl Natural England fod yn arbennig o ddefnyddiol yn hynny o beth. Anogwn Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynnydd ar yr agwedd hon ar y gwaith yn cael ei monitro'n ofalus.

### *Adnoddau dynol a phensiynau*

Er bod llawer o'r dystiolaeth a gawsom yn cyfeirio at CCC, mae'n bwysig cydnabod bod y peryglon ynghylch TG, adnoddau dynol a phensiynau yn berthnasol ar draws y tri sefydliad, ac ni ddylai'r drafodaeth benodol mewn perthynas â CCC fychanu'r ffaith bod peryglon yn y meysydd hyn yn berthnasol i'r tri sefydliad.

Mae'n anodd i ni wneud sylwadau pellach ar yr agwedd hon ar y rhaglen waith hyd nes ein bod yn cael manylion ynghylch sut y bydd y peryglon hyn yn cael eu datrys. Mae'n bwysig cael sicrwydd ar y materion hyn yn gynnar yn y broses fel bod staff y tri sefydliad presennol yn gallu trefnu ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud hynny, dylid rhoi sylw dyledus i farn y grwpiau staff a'r undebau.

### *Perthnasau presennol*

Nodwyd colli perthnasau â staff allweddol yn y sefydliadau presennol yn risg gan rai rhanddeiliaid.

Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wrthym ei fod yn credu bod y tri chorff yn trafod yr un math o bynciau a'u bod yn rhyngweithio â'r un math o randdeiliaid, felly byddai cael un corff yn creu arbedion effeithlonrwydd drwy ddarparu un ddolen gyswllt.

Croesawn yr ymrwymiad hwn tuag at sicrhau na fydd unrhyw leihad yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod trawsnewid. Fodd bynnag, mae'r maes hwn yn peri cryn bryder i'r rhanddeiliaid a gyflwynodd tystiolaeth i ni, ac mae'n bwysig bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau nad yw perthnasau presennol rhwng rhanddeiliaid allweddol a'r corff yn cael eu colli yn ystod y cyfnod trawsnewid. Nodwn fod Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGW) wedi rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r perygl hwn a byddem yn eich annog i sichrau bod CCC ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) hefyd yn ystyried y mater hwn yn ddigonol.

### *Tryloywder a datrys anghydfodau*

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch y diffyg manylion yn yr achos busnes mewn perthynas â sut y bydd gwrthdaro rhwng gwahanol swyddogaethau'r corff newydd yn cael ei ddatrys, yn enwedig yr her o sicrhau bod proses tryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ei lle pan fo angen i'r corff gyflawni rôl caniatáu a chynghori.

Roeddem yn fodlon i nodi ymrwymiad Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i sicrhau tryloywder prosesau'r corff newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ac rydym hefyd yn nodi y bydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd drwy gyhoeddi pob asesiad a chyngor y mae penderfyniadau yn seiliedig arnynt. Mynegodd y Gweinidog ei farn y gellid sicrhau tryloywder trwy greu strwythurau 'muriau Tsieineaidd' neu o bosibl trwy drosglwyddo rhai swyddogaethau o ran gwneud penderfyniadau i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn derbyn bod y dulliau gweithredu hyn yn rhan o'r ymgynghoriad parhaol ar ffurf a swyddogaeth y corff newydd ac edrychwn ymlaen at ystyried manylion cynigion y Gweinidog yn y maes hwn wrth iddynt ymddangos yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i gadw swyddogaethau caniatáu a chynghori un corff ar wahân.**

### *Materion trawsffiniol*

Er bod nifer o faterion trawsffiniol a allai ddeillio o wahanu CCC ac AAC o'u rhiant-sefydliadau, mynegwyd pryderon arbennig gan randdeiliaid ynghylch y peryglon sy'n gysylltiedig â cholli mynediad at arbenigedd ac at Forest Research.

Pan ymddangosodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ger bron y Pwyllgor, roedd yn glir ei fod yn hyderus y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban yn cytuno ar ddarparu gwasanaethau trawsffiniol. Hefyd, nododd na fyddai darpariaeth Forest Research yn cael ei heffeithio yn sgil creu un corff amgylcheddol. Bydd yr ymrwymiadau hyn, ar ôl iddynt gael eu cyflawni, yn cyfrannu'n helaeth tuag at leddfu'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid. Byddem yn gofyn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ac i randdeiliaid o ran cynnydd tuag at gytundeb terfynol ar y materion hyn, oherwydd ni ellir lleddfu ein pryderon yn y maes hwn yn rhwydd hyd nes bod llwybr clir tuag at gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi'i amlinellu.

Rydym yn nodi pryderon Dŵr Cymru ynghylch sicrhau cyffredinolrwydd yn y fframwaith rheoliadol sy'n cael ei roi ar waith ledled Cymru a Lloegr ac anogwn y Gweinidog i sicrhau bod perthnasau gwaith da yn cael eu cynnal rhwng y corff newydd a'i chyn rhiant-gyrff y tu allan i Gymru.

# 6. Dilyniant busnes

Yn eu hymatebion, pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid pwysigrwydd sicrhau dilyniant busnes yn ystod y cyfnod trawsnewid a blynyddoedd cyntaf y corff newydd.

Yn nhystiolaeth Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, gwnaeth yn glir unwaith eto nad yw'n disgwyl unrhyw ddirwyiad ym mherfformiad neu ansawdd gwasanaeth y tri chorff yn ystod y cyfnod trawsnewid. Nododd y Gweinidog bod ei swyddogion yn gweithio gyda'r tri chorff i sicrhau bod pawb yn glir ynghylch y gwasanaethau hanfodol y bydd angen eu cynnig yn ystod y cyfnod trawsnewid.

Fel yn achos y maes arall a oedd yn peri pryder a drafodir yn y llythyr hwn, rydym wedi ein calonogi gan ymrwymiad y Gweinidog i leddfu'r pryderon sydd wedi'u codi ond ni fyddwn wedi'n boddhau'n llwyr hyd nes ein bod yn gweld manylion ynghylch sut y bydd yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni. Hefyd, anogwn y Gweinidog i sicrhau bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal â'r rhanddeiliaid sy'n ddibynnol ar y sefydliadau presennol i ddarparu gwasanaethau hanfodol er mwyn trafod y gweithdrefnau a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod trawsnewid.

**Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad ym mherfformiad nac ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan y tri chorff presennol yn ystod y cyfnod trawsnewid.**

# 7. Perthnasau a phartneriaethau â rhanddeiliaid

### *Ymgysylltu â rhanddeiliaid*

Nododd nifer o rhanddeiliaid o'r sector coedwigaeth a ymatebodd i'r Pwyllgor nad oeddent yn credu bod y sylwadau a wnaethpwyd ganddynt wedi cael eu hadlewyrchu yn yr Achos Busnes.

Hefyd, mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr fod yr Achos Busnes wedi methu â chynnwys digon o fanylion am sut y byddai corff newydd yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau.

Roedd yn galonogol clywed bod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid a'i fod wedi cael cyfarfod buddiol gyda CONFOR. Bydd angen parhau gyda gwaith ar y lefel hwn er mwyn trosglwyddo i un corff amgylcheddol yn llwyddiannus. Gobeithiwn y bydd sylwadau'r holl rhanddeiliaid yn cael sylw ac ystyriaeth gyfartal yn y broses ymgynghorol gyfredol ynghylch ffurf a swyddogaeth y corff newydd.

### *Perthnasau lleol*

Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru nad oedd trafodaethau digonol wedi'u cynnal wrth ddatblygu'r Achos Busnes o ran y perthynas rhwng y corff newydd a'r awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol.

Bydd perthnasau gwaith effeithiol rhwng y corff newydd, awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol yn hanfodol i lwyddiant y corff newydd a chyflwyno fframwaith amgylchedd naturiol newydd i Gymru. Nid yw'r Achos Busnes yn darparu manylion digonol am y perthnasau pwysig hyn. Gofynnwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn sicrhau bod y corff cysgodol yn edrych yn ofalus ar y mater hwn a bod y corff hwnnw yn cynnal trafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol ar eu perthynas gyda'r corff.

# 8. Llywodraethu a strwythur

### *Arweinyddiaeth ac amserlen*

Amlygodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd arweinyddiaeth i lwyddiant corff newydd.

Yng ngeiriau Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, mae wedi pennu amserlen heriol ar gyfer sefydlu corff newydd. Er bod y Gweinidog wedi awgrymu y gallai'r corff newydd gael ei lywodraethu gan fwrdd a benodir gan Weinidogion Cymru, rydym yn derbyn na fydd manylion am y strwythur llywodraethu terfynol yn cael ei benderfynu hyd nes bydd canlyniadau'r ymgynghoriad sy'n parhau yn cael eu hystyried a nes bydd y bwrdd cysgodol yn cael ei sefydlu. Arhoswn yn frwd i gael y manylion hyn, a byddwn am wneud sylwadau mwy manwl unwaith y bydd cynigion mwy cadarn yn ymddangos.

Wrth wneud penodiadau i fwrdd cysgodol, byddem yn annog Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i ystyried y pwyntiau a godwyd mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn a sicrhau bod y bwrdd yn cynnwys yr ystod o sgiliau a gwybodaeth sydd ei hangen i sicrhau bod cyflwyno'r corff newydd yn digwydd yn effeithiol.

Fel Aelodau Cynulliad, rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod atebolrwydd priodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion o reolaeth ariannol. Hoffem gael sicrwydd gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y bydd prif swyddog gweithredol y corff newydd yn cael ei ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ac felly'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran cyflawni ei gyfrifoldebau fel swyddog cyfrifyddu.

### *Diwylliant*

Gwnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau mewn perthynas â diwylliant y corff newydd. Yn ei ymateb i'r holiadur, nododd RSPB Cymru y bydd yn bwysig sichrau bod diwylliant newydd yn cael ei greu yn y sefydliad fel bod staff yn rhannu'r un weledigaeth a ffyrdd o weithio. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd CONFOR mai creu corff sy'n fwy na swm ei gydrannau ddylai fod yn gyrru'r newid. Ategwyd hyn gan Mr Parry, Cadeirydd CCGC, yn ei dystiolaeth lafar. Dywedodd ei fod yn bwysig cofio y byddai un corff amgylcheddol yn gorff newydd sbon ac nid yn ganlyniad uno tri chorff presennol yn unig.

Rydym yn nodi bod ymgynghoriad ar ffurf a swyddogaeth corff newydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Drwy'r broses hon, argymhellwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn sicrhau bod canlyniadau ymarferol i randdeiliaid yn sgil y newid sefydliadol sylweddol hwn yn cael eu datgan yn glir. Bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn y broses.

Rydym yn cefnogi'r farn y dylai sefydlu corff newydd arwain at sefydliad sy'n fwy na swm ei gydrannau ac edrychwn ymlaen at fonitro gwaith y corff cysgodol ar y mater hwn. Bydd cyflawni diwylliant newydd yn elfen bwysig o sicrhau bod fframwaith amgylchedd naturiol newydd i Gymru yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Bydd diffinio targedau strategol clir ar gyfer y corff newydd, sy'n ymgorffori egwyddorion y fframwaith amgylchedd naturiol ac y gellid adrodd arnynt yn gyson, yn dasg hanfodol i'r corff cysgodol, a bydd gennym ddiddordeb mewn gweld sut mae'r targedau hynny'n datblygu.

**Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr tuag at greu diwylliant sefydliadol newydd a chydlynol drwy uno tri sefydliad sydd â diwylliannau gwahanol yn cael ei nodi'n glir, a bod canlyniadau ymarferol i randdeiliaid yn sgil y newid sefydliadol sylweddol hwn yn cael eu datgan yn glir.**

### ***Lleoliad***

Mynegodd CLlLC a Pharciau Cenedlaethol Cymru farn am leoliad corfforol corff newydd.

Cytunwn â'r farn a fynegwyd gan nifer o randdeiliaid; hynny yw, y dylid cymryd pob cyfle i sicrhau bod y corff newydd yn cynnal presenoldeb lleol ledled Cymru. Mae mabwysiadu arfer gorau o ran polisi Iaith Gymraeg yn hanfodol o ran ffurfio unrhyw gorff yng Nghymru, ac mae ein disgwyliadau ar gyfer y corff newydd yn adlewyrchu'r farn hon.

## 9. Casgliadau

Ni ŵyr faint o'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid a fydd yn cael eu lleddfu, oherwydd mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn parhau i aros am ganlyniad ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ac am sefydliad y corff cysgodol. O ganlyniad, ni allwn eto fod yn hyderus y bydd dulliau gweithredu yn eu lle i liniaru'r peryglon a'r pryderon sydd wedi'u mynegi.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd manylion pellach yn ymddangos yn ystod y misoedd nesaf, a gofynnwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth iddi ymddangos fel y gallwn, ac fel y gall y rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at ein gwaith, gael hyder bod y pergylon a'r pryderon sydd wedi'u nodi yn y llythyr hwn yn cael eu lleddfu'n gywir.

Fel Pwyllgor, bydd gennym rôl bwysig i'w chwarae yn natblygiad y corff newydd o ran ein gwaith craffu ar bolisi, materion cyllidol a deddfwriaeth. Byddwn yn edrych yn ôl ar faterion sydd wedi'u codi gyda ni yn awr pan fyddwn yn gwneud y gwaith hwn yn y dyfodol, a byddwn yn disgwyl bod y pryderon sydd wedi'u mynegi yn yr adroddiad hwn wedi cael eu lleddfu'n ddigonol.